# Canllaw i Ganlyniadau 2026-2027

v2. 03/09/2026

### Pryd?

Diwrnodau Canlyniadau Cyfresi Tachwedd, Ionawr a Mehefin

### Pwy?

Pryd a sut bydd modd cael mynediad at ganlyniadau neu pryd a sut byddant yn cael eu rhyddhau i wahanol grwpiau

### Ble?

Sut i gael mynediad at ganlyniadau ar safle Porth a ble i fynd i weld **Ffiniau Graddau**

### Lawrlwytho Ffeiliau

Gwybodaeth am ddata sylfaenol, ffeiliau EDI a XML

### Adroddiadau Cymedrolwyr

Pryd a ble i fynd i weld Adroddiadau Cymedrolwyr ar safle Porth

### Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Gwybodaeth am Fynediad at Sgriptiau, Adolygiadau o'r Marcio a'r Cymedroli ac ati

## Ymgeisydd?

Lluniwyd y ddogfen hon i'w defnyddio gan Swyddogion Arholiadau.
I weld rhestr lawn o Gwestiynau Cyffredin am y canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr:

- ymgeiswyr yng Nghymru neu rywle arall y tu allan i Loegr, cliciwch yma
- ymgeiswyr yn Lloegr, cliciwch yma

# Diwrnodau Canlyniadau

## Cyfres Tachwedd 2026

Mae'r dyddiad hwn o ganlyniad i newid, fel yr amlinellir ym mwletin y CGC a gafodd ei gyhoeddi ar 03/09/2026.

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2027**

TGAU

## Cyfres Ionawr 2027

**Dydd Iau 11 Mawrth 2027**

- TGAU (manylebau CBAC yn unig)
- Llwybrau Mynediad
- Llwybrau Ieithoedd
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru)
- Cydrannau Her Sgiliau
- Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
- Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)

## Cyfres Mehefin 2027

**Dydd Iau 12 Awst 2027**

- TAG (UG/Safon Uwch)
- Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol
- Project Estynedig
- Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru)
- Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
- Lefel T mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu ar gyfer Gwaith Adeiladu (Lloegr)

**Dydd Iau 1 Gorffennaf 2027**

Llwybrau Mynediad

**Dydd Iau 19 Awst 2027**

- TGAU
- Lefel Mynediad
- Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- Lefel 1 a 2 Tystysgrifau (Lladin a Mathemateg Ychwanegol)
- Llwybrau Ieithoedd
- Cymraeg Gwaith
- Tystysgrif Her Sgiliau – Cenedlaethol a Sylfaen

# Pryd i Gael Mynediad at Ganlyniadau

| Pwy? | Pryd? | Sut? |
|---|---|---|
| **Swyddogion Arholiadau a Defnyddwyr Porth Gweinyddol** | 00:01 ar y diwrnod cyn Diwrnod y Canlyniadau (dydd Mercher) | Bydd ffeiliau canlyniadau yn cael eu rhyddhau i ganolfannau a bydd canlyniadau ar gael ar safle Porth. |
| **Ymgeiswyr** | 08:00 ar Ddiwrnod y Canlyniadau | I'w rhyddhau i ymgeiswyr gan y ganolfan gofrestru. Ni all CBAC roi canlyniadau'n uniongyrchol i ymgeiswyr. |
| **Defnyddwyr Porth eraill (h.y. athrawon)** | 08:00 ar Ddiwrnod y Canlyniadau | Bydd defnyddwyr Porth sydd â mynediad at yr adran 'Canlyniadau' yn gallu gweld gwybodaeth am y canlyniadau o'r adeg hon ymlaen. Gwaherddir cyhoeddi'r wybodaeth yn awtomatig tan hynny. |
| **Awdurdodau Lleol, y Cyfryngau, Datganiadau Cyhoeddus** | 09:30 ar Ddiwrnod y Canlyniadau | Ni ddylai canolfannau ryddhau unrhyw wybodaeth i Awdurdodau Lleol, na darparu unrhyw ddatganiadau cyhoeddus neu wybodaeth i'r cyfryngau, tan yr adeg hon. |
| **Unrhyw un heblaw'r ymgeisydd** | Byth | Ni ddylai canolfannau fyth roi canlyniadau ymgeisydd i unrhyw un heblaw'r ymgeisydd dan sylw heb dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan yr ymgeisydd hwnnw. |


Mae rhagor o fanylion ynghylch rhyddhau canlyniadau i'w cael yn nodgfennau'r CGC.

# Ble i Fynd i Weld Canlyniadau ar safle Porth

I gael manylion ynghylch lawrlwytho ffeiliau canlyniadau drwy EDI, edrychwch ar y dudalen nesaf.


Mae canllawiau llawn ar gyfer Porth, gan gynnwys sut i osod cyfrifon, i'w gweld ar y tudalennau Porth ar ein gwefannau CBAC ac Eduqas.

Ar ôl i chi fewngofnodi i safle Porth, cliciwch ar 'Dewislen' ar frig y dudalen ar yr ochr chwith.




Mae canllawiau a gwybodaeth ychwanegol ar gyfer Diwrnod y Canlyniadau i'w cael ar dudalen gartref Porth, gan gynnwys canllawiau penodol ar bob dewis yn y ddewislen 'Canlyniadau' yn ein dogfennau 'Mynediad at Ganlyniadau'.

Cliciwch ar 'Canlyniadau' ar ochr chwith y sgrin i weld y ddewislen 'Canlyniadau'.




## Ffiniau Graddau

Bydd Ffiniau Graddau ar gael ar y tudalennau perthnasol ar ein gwefannau o **8 a.m. ar Ddiwrnod y Canlyniadau:**

**Ffiniau Graddau Cymwysterau Eduqas**

**Ffiniau Graddau Cymwysterau CBAC**

# Lawrlwytho Ffeiliau Canlyniadau

## Data Sylfaenol

Cyn mewnforio unrhyw ffeiliau canlyniadau, sicrhewch fod y fersiwn diweddaraf o'n data sylfaenol wedi'i osod ar eich MIS.
Mae ffeiliau data sylfaenol i'w cael ar ein gwefannau:

**Data Sylfaenol Eduqas (canolfannau yn Lloegr)**

**Data Sylfaenol CBAC (pob canolfan arall)**

## Ffeiliau EDI a XML

Mae ffeiliau EDI a XML yn cael eu hanfon drwy'r ap 'A2C Transport' er mwyn eu mewnforio i becynnau MIS. Cysylltwch â'ch cyflenwr MIS i gael rhagor o wybodaeth ynghylch a oes angen mewnforio un ffeil neu'r ddwy.

### Ffeil EDI

**Cymwysterau Llinol:**

- graddau cyffredinol ar gyfer cymwysterau
- ardystiadau (lle bo hynny'n berthnasol)
- cyfanswm y marc wedi'i agregu ar gyfer y cymhwyster (oni bad bod y cymhwyster wedi'i ardystio).

**Cymwysterau Unedol:**

- graddau cyffredinol
- marciau GMU ar gyfer cymwysterau ac unedau.

### Ffeil XML


**Cymwysterau Llional:**

- graddau cyffredinol ar gyfer cymwysterau
- ardystiadau (lle bo hynny'n berthnasol)
- cyfanswm y marc wedi'i agregu ar gyfer y cymhwyster
- Marciau Cydrannau.

**Cymwysterau Unedol:**

- graddau cyffredinol
- marciau GMU ar gyfer cymwysterau ac unedau, yn ogystal â Marciau Cydrannau.

Mae Ffeiliau EDI ar gael i'w lawrlwytho hefyd o safle Porth, drwy ddewis 'Lawrlwytho Ffeil Canlyniadau EDI' o'r ddewislen 'Canlyniadau'.




# Adroddiadau Cymedrolwyr

Mae Adroddiadau Cymedrolwyr ar gael o safle Porth o **8 a.m. ar Ddiwrnod y Canlyniadau**

Ar ôl i chi fewngofnodi i safle Porth, cliciwch ar 'Dewislen' ar frig y dudalen ar yr ochr chwith


Yna cliciwch ar 'Arholiadau ac Asesiadau'

Yn y ddewislen hon, dewiswch 'Marciau/Canlyniadau Asesiad Mewnol'




Cliciwch ar lefel cymhwyster i'w hehangu a gweld y pynciau sydd ar gael

Bydd botwm 'Edrych ar Adroddiad y Safonwr' ar gael nawr wrth ymyl pob pwnc




Bydd adroddiadau **Llwybrau Mynediad** i'w gweld drwy glicio ar **'Canlyniadau'** ac yna **'Lawrlwytho Ffeil – Argraffu Canlyniadau'**


# Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

**Mae manylion llawn ynghylch ein Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau, gan gynnwys pob terfyn amser a ffi, i'w cael ar ein gwefannau [CBAC] ac [Eduqas].**

Ar ôl i chi fewngofnodi i safle Porth, cliciwch ar 'Dewislen' ar frig y dudalen ar yr ochr chwith

Yna cliciwch ar 'Canlyniadau'

Mae dewisiadau 'Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau' i'w cael yn rhan o'r ddewislen hon




Gall canolfannau wneud cais am y gwasanaethau canlynol yn yr adran **'Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau'**:

- Ailwiriadau clerigol
- Adolygiadau o'r Marcio
- Adolygiadau o'r Cymedroli.

**Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau**

Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Gweld Mynediad at Sgriptiau

I weld canllawiau ar y dewis **'Gweld Mynediad at Sgript'**, ewch i **'Canllaw Cyflym Porth – Mynediad am Ddim i Sgriptiau wedi'u Hanodi'**, sydd ar gael ar dudalen gartref safle Porth.

**Rhaid** i ganolfannau gael caniatâd gan ymgeiswyr cyn gwneud cais am y canlynol:

Mynediad at Sgriptiau

Ailwiriadau clerigol

Adolygiadau o'r Marcio